


Perthyn

Rhagfyr 2020

Rhif 292



Nadolig 2020

Gŵyl amgen fydd hi 'leni - gŵyl a'i hud
O dan glo'n cysgodi
Un ŵyl lle cawn dafoli
Ein holl flaenoriaethu ni.

Iwan Bryn James

Gair gan Eifion

Dau gymeriad, dau gymeriad hollol wahanol i'w gilydd sydd yn mynd a'n sylw. Un cymeriad cig a gwaed ac un dychmygol. Buodd un fyw rhwng 1599 a 1658 a'r llall yn ffrwyth dychymyg byd ffilmiau'r ugeinfed ganrif. Ac eto dau geisiodd wneud yr un peth sef dileu'r Nadolig. Os ydach chi'n haneswyr yna byddai'r dyddiadau wedi bod yn gliw amlwg, dyddiad geni a marwolaeth y cymeriad hanesyddol rhyfeddol hwnnw, Oliver Cromwell, 'Arglwydd Warchodwr' ac os ydach chi'n 'byff ffilmiau' yna byddai stori am ddileu'r Nadolig wedi bod yn gliw i'ch atgoffa am y cymeriad hull ei wedd, y 'Grinch'. Yr hyn oedd yn gyrru Cromwell ymlaen oedd yr argyhoeddiad mai rhywbeth paganaidd oedd dathliad o'r fath ond i'r Grinch fel Ebeneser Scrooge o'i flaen, diflastod a chybydd-dod oedd sail ei ymdrechion.



Fe ddaeth y ddau gymeriad yna i'r meddwl wrth weld penawd yn un o'r papurau dyddiol, bod y Nadolig yn mynd i gael ei ohirio. Dyna dacteg byd y cyfryngau,



dewis geiriau er mwyn denu sylw a'r cynnwys yn aml iawn yn denau ac ar ei waetha yn ddi-sail. Beth bynnag am hynny, sail y penawd oedd y sefyllfa bresennol parthed

y clefyd Covid 19. A ninnau newydd brofi cyfyngiadau byr ar ein bywydau, mae golwg y byd bellach ar gyfnod y Nadolig a'r sylweddoliad y bydd pethau'n wahanol y flwyddyn yma. Fydd yna ddim canu carolau na dramâu, dim cynnau canhwylau'r Adfent na

phartion plant nac ymweliad Siôn Corn,
dim cyngherddau ysgolion na galw o
ddrws i ddrws. Fydd pethau ddim yr un
fath!



Ond mae'n amlwg fod yna rhywbeth
arall yn poeni rhywun yn fwy na'r
pethau hyn i gyd sef y posibilrwydd o
fethu bod gyda'n gilydd fel teuluoedd. Mae yna sôn am
ostwng cyfyngiadau am bum niwrnod ond hefyd y
posibilrwydd o dalu am hyn gyda chyfyngiadau pellach o
bum niwrnod ar hugain ac mae yna drafodaethau newydd
ar ddiffinio cyfyngiadau mewn ffyrdd gwahanol. Beth
bynnag fydd yn digwydd y nôd yw sicrhau dathliad fydd
yn rhoi'r teulu yn y canol - a da felly. Mae'r Nadolig yn
gyfle i ni fod gyda'n gilydd ac mae bod o amgylch bwrdd,
yn deulu a ffrindiau, yn gwledda a chymdeithasu yn
adleywrcriad naturiol o natur ein bywydau. Mi 'rydan ni
am fod mewn perthynas gyda eraill a dim yn fwy na'r rhai
ydan ni'n eu caru. Nid dyna'r gwir am bob teulu ac allwn
ni ddim dechrau dychmygu natur perthynas rhai teuluoedd
na'u hamgylchiadau amrywiol. Teuluoedd wedi eu
rhwygo gan gasineb a thlodi a rhyfeloedd, teuluoedd sy'n
byw eu bywydau yng
nghysgod bygythiadau ac
ofn a phryderon,
teuluoedd sydd eto i
ddeall ystyr 'cyflawnder'
a theuluoedd y mae galw
arnoch chi a fi i'w cofio
mewn gweddi ac i'w gwasanaethu mewn trugaredd.



Sôn am deulu mae Stori'r Geni hefyd, teulu cig a gwaed
oedd yn deall ystyr ofn a phryder ac ansicrwydd ond ar yr

pryd yn llawenhau yn y ddealltwriaeth o enedigaeth. Fel pob rhiant gwerth eu halen fe allwn ddychmygu bod Joseff a Mair wedi gwirioni wrth weld eu baban newydd anedig. Y wefr o weld bywyd newydd a'r holl obeithion sydd ynghlwm wrth hynny. Rhywbeth daearol oedd profiad Joseff a Mair a'r holl gymeriadau y mae'r Efengylau'n sôn amdanynt ond buan iawn y daethant i sylweddoli bod yn rhywbeth mwy na dynol ym mherson yr Iesu. Mewn amser trodd y sylweddoliad yna'n gredo ac yn gyffes, yn gyfrwng bywyd newydd ac yn obaith ac felly'n neges sydd wedi cael ei gyhoeddi ar hyd y canrifoedd - bod Duw yng Nghrist wedi ac yn torri mewn i'n bywydau, wedi ac yn dangos ei hun i ni ac yng ngweithred ffydd yn ein geni ni'n ddyddiol i fywyd newydd.

Efallai y bydd Nadolig 2020 ychydig yn wahanol ond yr un fydd y neges. Fydd yna ddim sôn am ohirio, dim ond dathlu, dathlu dyfodiad yr Iesu a dathlu'r bywyd yna sydd o Dduw, yn rodd ac yn wahoddiad.

Diolchwn am ein teuluoedd ac am neges oesol y Nadolig cyntaf!

Eifion.

CYSTADLEUAETH



Fe fydd pethau ychydig yn wahanol y Nadolig yma! Yr arfer yw dod ar ein gilydd



ar Fore Nadolig, i ddathlu ac i rannu. Bydd hyn yn digwydd ar Zoom y flwyddyn yma a byddwn yn parhau gyda'r arfer o ddangos anrhegion a'r gystadleuaeth. Mins Peis oedd hi flwyddyn diwethaf, y tro yma, het neu gap y Nadolig. Bydd dau gategori, plant a oedolion a gwobr i'r enillwyr. Ewch ati i greu neu i brynu!

Newyddion

Anfonwn ein cofion at Luned Williams a Brenda Griffiths fu yn ysbyty Bronglais yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion hefyd at bawb sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain ac mewn cartrefi gofal.

Cofiwn am staff a thrigolion Cartref Hafan y Waun a holl gartrefi gofal a phreswyl yn y cyfnod heriol yma. Yr ydym yn cofio amdanoch yn ein gweddïau ac yn anfon ein cofion cynhesaf atoch.

Anfonwn ein cofion at Mair Davies sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Treforys ac sydd yn yn awr yn aros am gyfnod gyda'i merch Nerys (a Stephen, Lowri a Steffan) ym Mhenrhyn-coch.

Dymuna Miss Clara Edwards, Northgate Street, ddiolch yn fawr i bawb o Gapel y Morfa am eu negeseuon a'u cardiau a'u caredigrwydd ers iddi symud i Gartref Carlton House, Llan-non. Mae'n gwerthfawrogi'r holl ddymuniadau da yn fawr iawn.

Cydymdeimlwn yn ddwys â

Elsbeth Lewis ar farwolaeth ei modryb, sef Mrs. Vera Jones yng Nghartref Hafan y Waun.

Glyndwr Griffiths sydd wedi colli ei chwaer-yng-nghyfraith yn ddiweddar, sef Mrs Elizabeth Thomas, Llundain.

Geni

Llongyfarchiadau i Nia ac Irfon Richards ar enedigaeth Alaw Gwawr, chwaer i Betsan ac wyres i Brian a Mary Thomas.

Gair y Dydd, Cristion a'r Goleuad

Mae Alun Morris a David Meirion Jones wedi dosbarthu'r cylchgronau am nifer lawer o flynyddoedd a hynny yn dawel a chydwybodol. Diolch iddynt am eu gwasanaeth.



Mae Alun Morris yn dymuno ein dewis olynydd iddo i fod yn gyfrifol am ddosbarthu pedwar rhifyn o Gair y Dydd y flwyddyn, Cristion bob deufis a'r Goleuad yn wythnosol (sydd ar-lein ar hyn o bryd).

Os oes rhywun yn barod i ymgymryd â'r gwaith a wnewch chi gysylltu ag Alun Morris, os gwelwch yn dda, er mwyn derbyn mwy o wybodaeth a chyfarwyddyd.

Perthyn

Bu Glyndwr Griffiths yn gyfrifol am gasglu Perthyn yn fisol oddi wrth yr argraffwyr am gyfnod o ugain mlynedd ac yna yn eu plygu yn y festri gydag eraill yn barod i'r dosbarthwyr. Mae newydd ddathlu ei benblwydd yn 98 oed, yn dal i fyw yn annibynnol a'i hiwmor a'i straeon yn dal i godi gwên a chodi calon.



Newyddion Ebeneser

Ar drothwy'r Nadolig anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at ein holl aelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser. Cofiwn am y rhai sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain ac mewn cartrefi gofal. Yr ydym yn meddwl amdanoch bob un ac yn cofio amdanoch yn ein gweddïau.



Anfonwn ein cofion at Brenda Griffiths sydd yn Ysbyty Bronglais gan obeithio y bydd yn well yn fuan.

Ein dymuniad yw eich bod yn cadw'n ddiogel ac edrychwn ymlaen at gyfnod pan ddaw haul ar fryn ac y gallwn gyfarfod unwaith eto yn ystod 2021.


Rhifyn byr yn Ionawr

Sara a John oedd yn gyfrifol am y rhifyn hwn o *Perthyn*. Bwriedir gyhoeddi rhifyn byr ar gyfer Ionawr i ddarparu gwybodaeth am wasanaethau Ionawr ac unrhyw newyddion arall. Anfoner erbyn 18 Rhagfyr i e-bost Sara - sarahminyfron@hotmail.com



Gofid y Covid

Digon tywyll yw Cymru y dyddiau hyn, nid yn unig oherwydd y tymor na'r ffaith ein bod wedi troi ein clociau yn ôl gan fyrhau ein prynhawniau – arfer nad wyf erioed wedi'i hoffi na deall y rhesymau drosto. O ganlyniad, mae Cymru yn deffro awr yn hwyrach, a chwtogi yn ddi-ffael fydd oriau bob dydd hyd at ddiwedd y flwyddyn. I un sy'n caru'r goleuni, mae hwn yn benyd blynddol didostur.



Eleni, daeth cysgod crymanog y firws **Covid** i ychwanegu at y tywyllwch, gan ddwyn gwae, galar ac ie, gofid, dros ein gwlad fel dros pob un arall ledled y byd. I'r rhai ohonom nad ydynt hyd yma wedi colli anwyliaid, diflas a digalon yw'r cyfyngiadau ar ein gallu i'w gweld a'u cyffwrdd. Datodwyd y clo diweddaraf eithr dichon y daw rai eraill yn eu tro. I aelodau'r gwahanol eglwysi Cristnogol, amharwyd ar eu trefniadau i gydgyfarfod â'i gilydd ac i fynychu addoldai.

Yn ffodus, dyfeisiwyd yr *Ipad*, *Facebook* a *Zoom* mewn pryd, eithr nid creadigaethau o gig a gwaed mohonynt. Fel na all pysgod fyw allan o'r dŵr, gall bod dynol ddim byw yn hir heb ocsigen cymdeithas. Ni fyddai Ffransis, yr enwocaf o'r meudwyaid, wedi goroesi pe na bai bodau dynol wedi taflu briwsionyn ato o bryd i'w gilydd. Ar wahanol adegau ac o dan wahanol fentyll, medraf dystio na fedrwn i byth fod wedi bodoli (heb sôn am gyflawni unrhyw beth) heb y rhyngweithio gyda

chymunedau bach a mawr ac, yn enwedig, heb y rhwymau sy'n fy nghlymu wrth y bobl rwy'n eu caru.

Profiad newydd a diddorol oedd gorfod archebu ein hanghenion wythnosol dros y we a'u derbyn y noson ganlynol o ddwylo angylion mewn faniau. Popeth yn dra effeithlon ond heb fod cystal ag astudio'r silffoedd a dewis yr hyn sy'n dwyn eich sylw – ond dyna ni, rydym yn dysgu ffyrdd newydd o wneud y pethau cyfarwydd, a dydy hi ddim cynddrwg arnom â phe baem yn Robinson Crusoe. Ddim cynddrwg chwaith â sefyllfa pobl sydd wedi colli'u busnesau, cyflogau, bywoliaeth. Bywydau hefyd - y golled eithaf.

Hyd yn hyn, ni themlais yr angen i gwyno am y modd di-ffwdan y mae Llywodraeth Cymru wedi'n harwain drwy'r labrinth twyllodrus a pheryglus hwn ar drywydd diogel. Yn wir, y maent i'w canmol (er mai rhywun arall gaiff fy mhleidlais yn yr etholiad nesaf).

Wrth i mi ymlafnio uwch y geiriau hyn, clywaf sôn y daw cyflenwad yn fuan o frechiad all gadw'r firws draw. Gweddïwn am ei effeithiolrwydd.



Elvey MacDonald

Darlith Flynyddol Morlan-Pantfedwen 2020

Cynhaliwyd Darlith Flynyddol Morlan-Pantfedwen 2020 nos Lun 16 Tachwedd, ac am y tro cyntaf, roedd yn rhaid cynnal y digwyddiad ar Zoom. Daeth cynulleidfa gref ynghyd yn rhithiol

Ymddiriedolaeth



i wrando ar yr Athro Linda Woodhead o Brifysgol Caerhirfryn yn rhannu rhai o ganlyniadau Arolwg o



Agweddau'r 'Young Millennials', yr ieuenctid hynny a anwyd ar ôl 1995. Roedd Linda Woodhead wedi cydweithio â thair academydd o Loegr a'r Unol Daleithiau i gyfweled myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Stanford a'r Community College yng Nghaliffornia, yn ogystal â gwneud arolwg cyffredinol o'r genhedlaeth hon yn y DG ac UDA.

Ar un ystyr, roedd y canlyniadau'n debyg iawn i'r hyn a ddisgwyliem yn gyffredinol gan unigolion yr oedran hynny, a chafwyd yr un math o ymateb ag y byddid wedi'i dderbyn gan genedlaethau blaenorol. Rhyw ymwrthod ag awdurdod, gweld bai ar sefydliadau a mudiadau sy'n cael eu rhedeg gan grŵp o unigolion bychain heb lawer o amynedd at y cynhwysol, ond hefyd yn fodlon cymryd yr hyn sydd o ddefnydd o unrhyw sefyllfa. A'r agwedd at grefydd? Canran helaeth ohonynt yn dweud nad oeddent yn 'grefyddol' ond y rhan fwyaf o'r rheiny'n honni fod yno ffydd – mewn beth neu bwy, doedd hynny ddim mor glir.



Roedd yn amlwg yn yr arolwg fod hunaniaeth yn bwysig iawn i'r grŵp yma o bobl, a doedd hynny ddim yn syndod, ond efallai mai'r hyn oedd yn wahanol oedd sail yr hunaniaeth hynny ac ymhle roedden nhw yn ei ddarganfod.

Dyma'r genhedlaeth gyntaf i fyw gyda'r we a chyfryngau digidol o'u babandod, ac os nad oedd modd dod o hyd i

'hunaniaeth' yn y gymdeithas go iawn o'u cwmpas, roedd yna ddigon o gyfleoedd i ddarganfod cymdeithas ddeniadol ar y we, a hynny'n cynnig amrywiaeth di-ben-draw o ffyrdd i fynegi'r hunaniaeth hwnnw. Ond roedd y canlyniadau'n dangos yn gryf iawn hefyd fod y Genhedlaeth Z yma'n bendant eu barn fod cymdeithas a bywyd 'offline', yn y byd go iawn fel petai, dipyn yn fwy gwerthfawr na'r bywyd ar-lein y mae modd ei fyw 24 awr y dydd. Mae hynny'n sicr yn obeithiol i fywydau'r cymunedau o'n cwmpas ni – dim ond i ni geisio rhoi lle i farn a hunaniaeth amrywiol a chynhwysol!

Gwenan Creunant



Cymdeithas Gweddi a Choffi a Chymdeithas Ffydd a Phaned

Mae Cymdeithas Gweddi a Choffi a arferai gyfarfod yn ystafell dawel y Morlan yn cyfarfod bob bore dydd Mawrth am 11 o'r gloch ar Zoom. Fel rhan o'n thema - Helaetha dy deyrnas gwahoddwyd y Parchedig Anna Jane i ymuno â ni ac i sôn am ei chysylltiad â Chymdeithas y Cymod. Gwelwyd lluniau o'r ymgyrchoedd di-drais y bu yn rhan ohonynt ar Fynydd Epynt a mannau eraill gan bwysleisio'r neges fod materion heddwch cyn bwysiced heddiw ag erioed.



Ar fore Mawrth Tachwedd 17, gwahoddwyd y Parchedig Mererid Mair atom i sôn am ei gwaith fel Gweithiwr Cymunedol Cristnogol yn Noddfa Caernarfon sydd yn dod o dan adain Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Mae Noddfa yn barod i estyn cymorth ymarferol a chynghori unigolion a theuluoedd yn y gymuned sydd yn wynebu anawsterau o bob math. Yn y cyfnod anodd yma mae'r galw am gymorth yn fawr a'r Ganolfan yn gweithredu ar y ffôn ac ar-lein.



Mae Cymdeithas Astudiaeth Ffydd a Phaned yn cyfarfod am 2 o'r gloch ar brynhawn Gwener ar Zoom. Y tymor yma buom yn trafod Llyfr Job ac erbyn hyn rydym wedi dechrau ar astudiaethau'r Adfent. Diolch yn fawr i Eifion am baratoi'n fanwl ar ein cyfer bob wythnos.

Croeso cynnes i bawb ymuno.

Eleri Davies

Plant ac Ieuenctid

Ysgol Sul – Clybiau Bore Sul

Mae Meithrin y Morfa yn parhau ar Facebook. Cyflwynir stori, cân, a chrefft gan Catherine bob bore Sul ac mae cyfle i'r plant a'r rhieni ymateb a dangos y gwaith os dymunant. Mae cyfle i weld y cyfraniadau mewn gwasanaethau teulu. Y tymor hwn cyflwynwyd storïau'r Creu Noa, Joseff a Moses.

Mae Clwb Bore Sul yn cyfarfod ar Zoom o 10 o'r gloch tan 10.45. a chyflwynwyd y storïau trwy gyfrwng lluniau Powerpoint mewn cysylltiad â thema a neges gyfoes e.e. Moses - Arweinwyr a Dilyn Rheolau, Joshua - Walïau a Dim Walïau a Ruth a Naomi – Y Teulu. Ceir digon o amrywiaeth ymhob sesiwn: gemau, chwilio am..., cwis, gweithgaredd ymarferol ac adnod yn cynnwys geirïau Iesu a digon o hwyl. Mae croeso cynnes i blant rhwng 6 a 11 i ymuno. Edrychwn ymlaen at gyfnod yr Adfent a gweithgareddau'r Nadolig

Mae'r Clwb Ieuenctid yn cyfarfod am 11 o'r gloch bob bore Sul ar Zoom ac mae'r criw yn mwynhau cyfarfod â'i gilydd, i drafod ac ymuno yn yr amrywiaeth o weithgareddau a ddarperir.

Clwb Bore Sul yn y Morlan

Yn ystod amser y gwasanaeth yn Y Morlan ar Dachwedd 15 fed cynhaliwyd Clwb bore Sul yn Y Morlan ar gyfer plant Meithrin, Derbyn a phlant hyd at 11 oed.

Bydd y Clwb nesaf yn Y Morlan (a'r olaf cyn y Nadolig) ar Rhagfyr 6ed pryd y bydd cyfle i wneud crefftau'r Nadolig.

Cardiau Nadolig

Gofynnwyd i'r plant a'r ieuenctid gynllunio cardiau Nadolig gartref, tynnu eu llun a'u hanfon ar e-bost er mwyn eu hadgynhyrchu a'u hanfon allan ar ran Yr Ysgol Sul.

Clwb Cŵl

Mae'r Clwb wedi aildddechrau ers rhai wythnosau o dan arweiniad Elen Wyn. Mae'n cyfarfod ar Zoom am 4.30. Croeso i ddisgyblion blwyddyn 4-9. (a brawd neu chwaer yn iau)

2020!

Ma' hi wedi bod yn gyfnod rhyfedd!

‘Dan ni wedi byw trwy ddau gyfnod clo bellach ac mae ein bywydau fel teulu wedi newid yn gyfangwbl. Fel arfer, rhaid oedd cadw cofnod manwl o weithgareddau ni blant a rhieni ar y calendr yn y gegin er mwyn sicrhau ein bod yn y lle iawn ar yr adeg iawn – rhwng gwersi nofio yng Nghanolfan Plascrug, sesiynau canu gyda Mrs Roberts yn Comins Coch, cyfarfodydd Clwb Gwawr a Chyfeillion Penweddig, Capel ac Ysgol Sul, ymarferion Adran Aberystwyth...

Roedd bywyd yn fishi!

Bellach, prin iawn yw'r digwyddiadau hyn – ‘dan ni ddim wedi nofio mewn pwll ers mis Mawrth, heb weld ein ffrindiau yn yr Adran ers mis Chwefror, yn mynychu Ysgol Sul yn



rhithiol ac mae'r Clwb Gwawr yn cyfarfod ar-lein!

Am newid!

Ond serch hynny, rydym wedi treulio lot mwy o amser gyda'n gilydd fel teulu. Yn hytrach na gorfod rasio i lefydd, wastad yn hwyr a mam yn 'stressed' mae bywyd yn fwy syml. Down adre o'r ysgol a mwynhau swper hamddenol gan siarad am ddiwrnod pawb. Does dim rhaid llowcio'n bwyd er mwyn cyrraedd rhyw wers neu ymarfer. Cawn amser i gynnau'r tân a gwyllo'r teledu fel teulu. Cafodd Ioan dreulio pythefnos draw ar y ffarm gyda Mamgu a Dadcu dros y cyfnod clo diweddaraf a chael amser arbennig yn eu cwmni fel arfer.

Er fod bywyd yn wahanol iawn nawr a nifer o bethau wedi newid er gwaeth, rhaid canolbwyntio ar yr agweddau positif o'r sefyllfa – y pethau a'r bobl sy'n bwysig i ni.

Elan Mari Mabbutt

Piano

Zender 'upright', 'polished rosewood' yn chwilio am gartref newydd. Os oes capel neu deulu â phlant bach yn dymuno cael piano yna dewch i gysylltiad.



Er hwylustod gallwch gysyllt â Eifion ar 01970 822 095 neu eifionroberts095@btinternet.com.

Ni chodir tâl ond disgwylir i chi ei symud.

Cofio'r Parchedig Adrian Pugh Williams

Y mae'r diweddar Barchedig Tegla Davies yn cyfeirio yn un o'i gyfrolau at ddefnydd y gair "Cliro" ac er mwyn esbonio'r ystyr mae'n cyflwyno darlun o berson yn taro llewys ei got yn erbyn mur wedi ei wyngalchu. Canlyniad y gwneud yw bod olion y gwyngalch i'w weld ar y dilledyn. "Cliro" yw peth felly, medd Tegla. Ond yna fe â yn ei flaen i nodi y medrwch chi "gliro" mewn pobl hefyd – fe ddigwydd hynny wrth inni dreulio amser yn eu cwmni a'u cyfeillach ac yn yr un modd â'r gwyngalch ar lewys, mi fydd olion y cyffwrdd yn amlwg. Mi fydd y "cliro hwnnw'n deillio o adnabyddiaeth ac yn esgor ar ddylanwad, a phwy all osod mesur ar beth felly?



Ar ddydd olaf Hydref eleni fe ddaeth criw bychan ohonom ynghyd i Amlogsgfa Aberystwyth i arwyl y Parchg Adrian Pugh Williams i ddiolch i Dduw amdano ac am y fraint o gael ei adnabod a chael "cliro" yn ei fywyd.

Ganwyd ef ar y trydydd ar ddeg o fis Tachwedd 1945 ar fferm Llai Hall, Wrecsam yn fab i Dorothy May ac Ellis Wynne Williams. Erbyn i Richard Gwyn ei frawd, gael ei eni chwe blynedd yn ddiweddarach, roedd y teulu wedi symud i fyw i Abergele.

Gan fod ei dad yn Brifathro ar Ysgol Dinorben, Abergele, cafodd Adrian ei addysg gynradd ac uwchradd yn y dref

honno, cyn mynd ymlaen i Goleg Prifysgol Cymru, Bangor i astudio Cymraeg, Hanes a Ieithyddiaeth ac yna i'r Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth yn 1968.

Cyfarfu â Nan yn nosbarth Ysgol Sul y Myfyrwyr yn Nhŵrgwyn, Bangor yn 1965 a chynhaliwyd eu priodas ar y 1af Awst 1970 yng Nghapel Mawr, Dinbych. Ganed Menai yn 1974 a Hedd yn 1976 i lonni'r aelwyd ac yn ddiweddarach bu dyfodiad Ioan a Lily, eu hwyrion, yn destun eu hymffrost a'u boddhad. Ar gychwyn mis Awst eleni bu Nan ac Adrian yn dathlu eu Priodas Aur a gwneud hynny'n gwbl ddi-ffws dros ginio o bysgod a sglodion a the prynhawn yn yr ardd!

Bu ei gyfraniad yn un cyfoethog ac adeiladol, yn arbennig felly o fewn ei enwad. Gwasanaethodd eglwysi ei ofal yn egniol am bedwardeg wyth o flynyddoedd.

Ordeiniwyd Adrian yng Nghapel Maengwyn, Machynlleth ym mis Medi 1972 a chychwyn yn ei ofalaeth gyntaf yn ardal Llandrillo ger Corwen, a oedd yn cynnwys Hermon, Llandrillo a Bethel, Cynwyd cyn ychwanegu Saron, Llandderfel yn ddiweddarach.



Symud wedyn i ofalaeth Blaenau Ffestiniog yn 1977. Dyma gyfnod hiraf ei weinidogaeth mewn un man – gwasanaethodd y fro honno rhwng 1977 a 2004. Ar gychwyn ei weinidogaeth yno, gofalai am eglwysi Peniel

(Ffestiniog), Bethesda (Manod), Tabernacl a Maenofferen yn y dre. Bu'n rhaid cau'r Tabernacl a Maenofferen yn

ddiweddarach ac ychwanegwyd Eglwys y Bowydd a'r capel Saesneg yng nghanol y dre. Bu Adrian hefyd yn cynnal y *Band of Hope* a Seiat yn Nhanygrisiau. Yna, wedi i Gapel Peniel gau ychwanegwyd Capeli Gorffwysfa, Penrhyndeudraeth a Chroesor at yr ofalaeth.

Yn 2004, penderfynwyd codi pac o ganol mynyddoedd 'Stiniog' a throi i gyfeiriad glan-môr Aberystwyth. Dechreuodd ar ei weinidogaeth yn Eglwys St. David's, Bath Street ym mis Ebrill 2004 a threulio wyth mlynedd yno cyn ymddeol (os ydi gweinidogion byth yn ymddeol!) ym mis Rhagfyr 2012. Bu iddo barhau i fynd allan i bregethu hyd y diwedd un, er yn ystod yr wyth mis diwethaf o ganlyniad i ledaeniad yr haint Covid-19 bu iddo'n raddol feistrolï'r dechnoleg, a Menai wrth ei benelin, o gynnal gwasanaethau ar Zoom! Byddai'n mwynhau hynny gan ofalu ei fod yn gwisgo ei goler gron ac esgidiau am ei draed i fynd i'r oedfa yn ei shorts.

Bu'n Ysgrifennydd Henaduriaeth yng Ngorllewin Meirionnydd, a gwasanaethodd fel Ysgrifennydd Panel Ecwmenaidd yr Eglwys Bresbyteraidd am nifer o flynyddoedd gan gyfrannu'n helaeth o'i wybodaeth a'i frwdfrydedd. Cyfrannodd i'r *Goleuad* yn ei dro - yn cynnwys cyfres o wersi Ysgol Sul i'r oedolion. Bu'n aelod o weithgor Churches Together in Britain and Ireland, Free Church Federal Council, Enfys, Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru, Pwyllgor Cytûn Waunfawr ac yn Ysgrifennydd Cymorth Cristnogol y dref am nifer o flynyddoedd a sawl pwyllgor arall am wn i.

Roedd Adrian yn âr hynaws a chartrefol, dawnus ac egnïol a phe byddem am geisio crynhoi i eiriau'r hyn a gynrychiolai ei fywyd ef, mi fyddem am gynnwys yn y

plethyn hwnnw y nodweddion hynny a amlygwyd yn ei fywyd, ei frwdfrydedd a'i argyhoeddiadau Cristnogol dwfn. Cofiwn amdano gydag anwyldeb mawr mewn perthynas â'i deulu a'i gydnabod - cofiwn am ei hiwmor a'i stori a'i chwerthiniad iach, amdano yn ei shorts ar gefn ei feic ac am yr het gosac, flewog. Gŵr diweniaith a'i ddwy droed yn soled ar y ddaear.

Mae'n cydymdeimlad â Nan ei briod, Menai, Hedd a'i deulu a'i frawd Richard Gwyn yn un dwys a diffuant. Boed i Dduw eu cynnal a chysegru'r atgofion.

Mawrygwn y frain o gael adnabod Adrian Williams, o gael "cliro" ynddo a derbyn o waddol y cyffwrdd hwnnw. "Da was, da a ffyddlon dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd."

Peter M. Thomas, Aberystwyth

Oedfaon Rhagfyr

Rhagfyr 6 - Oedfa am 10.00

yn y capel

Rhagfyr 13 - Myfyrdod gan

Peter Thomas yn cael ei roi ar

Facebook ac Oedfa Gymun y Nadolig am 5 yn y capel

Rhagfyr 20 - Oedfa Nadolig y plant a'r bobl ifanc ar Zoom.

Thema: Goleuni'r Byd

Rhagfyr - 27 - Myfyrydod gan Rhidian Griffiths yn cael ei roi ar Facebook



Hefyd - Oedfa Bore Nadolig ar Zoom am 10.30

(gwahoddir y plant i ddangos eu hanrhegion fel arfer).

Ar Dachwedd 30 am 10 o'r gloch ar Zoom - Gwasanaeth Teulu Sul cyntaf yr Adfent.



Ffotomarathon yn cynnig cip ar fywyd yn y cyfnod clo

Fel cynifer o weithgareddau eraill, bu'n rhaid canslo ffotomarathon flynyddol FfotoAber eleni, a gaiff ei chynnal fel arfer yn Morlan, ond fe'i chynhaliwyd yn rhithiol gan ganiatáu i gystadleuwyr o bob rhan o Gymru a thu hwnt gyflwyno eu ceisiadau.

Gyda chwe thema yn cael eu cyhoeddi dros benwythnos 24ain / 25ain Hydref cyflwynodd dros 150 o bobl eu setiau amrywiol o ddelweddau gan olygu bod yn rhaid dyfarnu dros 1000 o luniau. Roedd tri chategori – cynradd, uwchradd ac agored i'w beirniadu, yn ogystal â'r llun gorau ymhob thema felly roedd 'na dipyn o waith i'r beirniad, y ffotograffydd proffesiynol, Kristina Banholzer.





Ac er i bobl gystadlu o bellafoedd byd megis Seland Newydd, un o ffyddloniaid capel y Morfa aeth ag un o'r prif wobrau. Y chwe thema a ddewiswyd gan y trefnwyr oedd **Clyd, Tri, Drych, Oren, O Bell a Llawnder** a'r enillydd yn y categori agored am ei set o chwe llun oedd Kate Woodward.





Roedd y beirniad, Kristina Banholzer yn teimlo fod lluniau Kate yn adlewyrchiad da o'r cyfnod presennol,

“Wrth edrych ar ddelweddau Kate roeddwn yn teimlo eu bod wir wedi dogfennu'r cyfnod clo cyfredol ac yn adrodd stori teulu yn yr hinsawdd sydd ohoni. Hoffais yn arbennig y palet lliw ac roedd cyfansoddiad y delweddau yn cryfhau eu heffaith.”



Yn ôl Kate roedd yn gyfle annisgwyl i wneud rhywbeth pleserus mewn cyfnod mor heriol.

“Dyw hi ddim yn amser hawdd i neb ar hyn o bryd ac mae cymaint o ddigwyddiadau tebyg i hyn yn cael eu canslo felly roedd yn braf gweld rhywbeth yn mynd yn ei flaen. Mae ffotografiaeth mor hygyrch wrth gwrs a does dim rhaid teithio yn bell o adref er mwyn tynnu’r lluniau,” meddai.



“Roeddwn wrth fy modd o glywed fy mod wedi ennill ac wedi cael pleser mawr yn edrych ar yr oriel ar y wefan i weld sut oedd pobl eraill wedi dehongli’r themau. Ond gobeithio y flwyddyn nesaf y gallwn fod nôl gyda’n gilydd yn Morlan!”

Yn y categori cynradd mae llongyfarchiadau yn ddyledus hefyd i Llew Salisbury gafodd ganmoliaeth uchel a da iawn bawb o gapel y Morfa a fu’n cymryd rhan – gellir gweld yr holl luniau ar www.ffotomarathon.cymru

Deian Creunant



CYMDEITHAS Y MORFA

Tachwedd 9fed

Daeth criw da ynghyd i'r pedwerydd cyfarfod zoom y tymor hwn a chawsom ein harwain yn y defosiwn gan Dilys Lloyd.

Yn y tri cyfarfod
blaenorol croesawyd
siaradwyr o bellafion
byd ond y tro hwn
cawsom gwmni un
mwy lleol ym mherson



Yr Athro Ann Parry Owen o'r Ganolfan Uwchefrydiau
Cymreig a Cheltaidd, a'i thestun oedd '35 mlynedd o
ymchwil ar y bryn' sef hanes y Ganolfan Geltaidd.

Bu Ann yn ymwneud â'r Ganolfan ers ei sefydlu yn 1985
ac roedd hynny yn ei gosod mewn sefyllfa arbennig i
adrodd hanes y Ganolfan. Ystyriai ei hun yn ffodus iawn yn
un o chwech o staff i gael gwaith oedd yn ddilyniant
naturiol i'w chysiau coleg. Yn ôl ei chyfaddefiad ei hun
roedd ganddi ddiddordeb braidd yn obsesiynol mewn iaith
a llenyddiaeth ganoloesol Gymreig. Yn ôl y sôn, pan yn
ddeuddeg oed fe enillodd docyn llyfr ac fe brynodd y
llyfrau canlynol – 'Pedair Cainc y Mabinogion,'
'Llawysgrif Hendregadredd,' Canu Aneirin' a 'Llyfr Gwyn
Rhydderch.'

Cafwyd cyflwyniad hyfryd a chynnes ganddi a dangosodd
luniau oedd yn cynnwys atgofion personol a'r syndod oedd
fod cymaint o aelodau y Morfa yn rhan o'r stori.

Am ei wyth mlynedd cyntaf cafodd y Ganolfan letygarwch gan Brifysgol Cymru Aberystwyth yn yr adeilad Sioraidd Mount Pleasant sydd rhwng Yr Hen Goleg a'r Cyn-goleg Diwinyddol ar y prom. Fe gyflwynodd Cwmni Laura Ashley lenni hardd i'r ganolfan newydd ac hyd yn oed heddiw mae'r llenni i'w gweld yn crogi yn y ffenestri ond wedi dirywio'n arw fel gweddill yr adeilad. Braff oedd clywed fod yr adeilad erbyn hyn yn rhan o'r cynlluniau cyffrous i ddatblygu'r Hen Goleg.

Yn 1993 fe agorwyd yr adeilad newydd fel cartref parhaol. Mae'n adeilad hynod ac wedi ei leoli yng nghysgod ei chwaer fawr Y Llyfrgell Genedlaethol. Ar flaen yr adeilad mae penddelw o Edward Lhuyd gan y diweddar John Meirion Morris. Mae coridor hir yn cysylltu'r Ganolfan â'r Llyfrgell oherwydd dyna lle mae'r rhan fwyaf o ddeunydd ymchwil y staff yn bodoli.



Oherwydd natur bersonol ei sgwrs, ni ymhelaethodd ar gynnwys y prosiectau ond ymysg prosiectau gorffenedig y Ganolfan mae Hanes Cymdeithasol yr Iaith Gymraeg, Beirdd yr Uchelwyr, Barddoniaeth Guto'r Glyn a Diwylliant Gweledol. Ymysg y prosiectau cyfredol mae Teithiwr Chwilfrydig: Thomas Pennant a Theithio i Gymru ac i'r Alban, Cwlt y Seintiau, Geiriadur Prifysgol Cymru ac Astudiaeth Enwau Cymreig.

Diolchwyd i Ann gan Gwerfyl Pierce Jones a gyfeiriodd ati fel ysgolhaig disglair oedd oherwydd ei "gwyleidd-dra yn cario ei dysg yn ysgafn".

Tachwedd 23

Yn ôl arferiad y tymor hwn daeth pawb at ei gilydd ar Zoom, a chawsom ein harwain yn y defosiwn gan Huw Owen.

Ein siaradwr gwadd y tro hwn oedd Myrddin ap Dafydd. Mae'n gyfarwydd i ni gyd fel sylfaenwr Gwasg Carreg Gwalch yn ogystal â chyfarwyddwr i Oriel Tonnau Pwllheli a Chwrrw Llŷn. Mae un peth yn cysylltu y dair fenter yma, sef y berthynas a wêl Myrddin rhwng ffyniant yr iaith a'i diwylliant â mentergarwch. Yn ddiweddar daethom i'w adnabod fel ein harchdderwydd. Mae'n siŵr ei fod yn falch o gychwyn ei deyrnasiad ym mro ei febyd – Eisteddfod Sir Conwy.

Ond ni yng Ngheredigion sydd yn ei hawlio ar hyn o bryd, ac yn ry'n yn byw mewn gobaith y cawn ei weld yn ei holl regalia ar faes yr eisteddfod yn Nhregaron y flwyddyn nesaf. Beth bynnag ddaw, bydd yn gorffen ei



deyrnasiad yn Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd, y fro mae wedi ymgartrefu ynddi ers lawer blwyddyn bellach. Gwneir hyn i gyd yn bosibl oherwydd fod y rheol ynglŷn â hyd terynasiad archdderwydd wedi newid o fod yn dair blynedd i dair eisteddfod. a da o beth yw hynny.

Ei destun oedd ‘Mae stori yn yr enw,’ a diolchodd i bawb a ddanfonodd geisiadau iddo ymlaen llaw. Ymysg y ceisiadau a drafodwyd roedd yr enwau Pentre Celyn, Llwyn Cadfor, Lluest Concience, Pispah, Pwll Simon, Pwll

Hobi, Esgairgadwith, Bol Sach, Henfynyw, Clarach, Wtra
Slang a Thynrwta.

Y rhyfeddod yw fod ambell i enw sy'n ar un olwg yn unigryw i'w ganfod mewn llawer rhan o Gymru. Er enghraifft, mae'r gair 'slang' i'w ganfod fil a hanner o weithiau a'r enw 'Lluest' gannt a hanner o weithiau.

Soniodd am y modd y
mae'r cloi lawr wedi ein
gwneud yn fwy
ymwybodol o'r lleol
gyda'r rheol pum
milltir oedd yn ein
caethiwo ar un cyfnod
ac yn ein gorfodi i
grwydro ar hyd llwybrau

bychan cefn gwlad. Cyfeiriodd yn arbennig at y gair wtra sy'n golygu ffordd fechan yn arwain at 'fferm ac yn dod o'r gair Saesneg 'out-track.' Enw sydd ac ystyr digon tebyg iddo ac a geir yn y de yw ffordd Feindir. Mae tarddiad yr enw hwn yn dod o'r gair Gwyddelig -' bodar.' Hawdd iawn fyddai meddwl fod llawer o'r enwau a tharddiadau estron iddynt ond mae llawer enghraifft i'r gwrthwyneb o ddylanwad y Gymraeg tu hwnt i Gymru. Pwy fuasai'n meddwl mae tarddiad y gair 'Dover' yw dwfr. Ceir enghreifftiau hefyd ar draws Ewrop a phellach. Pwy fuasai'n meddwl fod yr enw 'Bala' i'w gael yn India, Iran a Hwngari?

Cyflwynwyd y diolchiadau gan Carwen Fychan a gyfeiriodd at gyfraniad arbennig Myrddin i faes enwau lleoedd.

Gareth Owen



Y gannwyll

A ninnau ar drothwy cyfnod yr Adfent, bydd y gannwyll yn chwarae rhan bwysig ac amlwg yng ngwasanaethau'r Morfa dros yr wythnosau nesaf. Ond ar wahân i'r Adfent, pethau i ychwanegu elfen o foethusrwydd a chysur i'n bywydau yw canhwyllau yn bennaf erbyn heddiw: er enghraifft i greu naws ramantaidd mewn tŷ bwyta o safon, neu i greu arogl da a naws gysurus braf yn ein cartrefi, a hyd yn oed yn ein hystafelloedd ymolchi wrth i ni fwynhau bath ymlaciol ar ôl wythnos arbennig o galed yn y gwaith!



Ond nid felly oedd hi yn y gorffennol, wrth gwrs, yn enwedig yn yr oes cyn trydan. A hyd yn oed pan oeddwn i'n blentyn, roedd cael bocs o 'Price's White Wax Candles' dan y sinc yn gwbl angenrheidiol, gan fod toriadau trydan yn digwydd mor aml.

Ond dwy neu dair canrif yn ôl, cyn dyddiau trydan, nid moeth neu gymorth wrth gefn oedd y gannwyll o gwbl, ond un o angenrheidiau bywyd. Oni bai am y golau a ddeuai o'r lle tân, neu olau gwan y lleud a dreiddiai drwy'r gwydr trwchus, y gannwyll oedd y prif ffynhonnell golau gyda'r nos (ac yn aml gyda'r dydd) yn nhai'r cyfnod.

Ac fel pob anghenraid bywyd arall yn yr hen amser, byddai pobl yn gwneud eu canhwyllau eu hunain yn hytrach na'u prynu. Roedd noson gwneud canhwyllau yn achlysur cymdeithasol o bwys mewn nifer o ardaloedd, wrth i bobl hel yn nhai ei gilydd i rannu'r gwaith rhyngddynt. *Pilnos* neu *noson bilio* y gelwid y noson hon mewn rhai ardaloedd, pan fyddai criw mawr yn cyfarfod o gwmpas y tân i bilio brwyn i wneud canhwyllau pabwyr, gan dynnu'r mêr neu'r *pith* allan ac yna'i roi i fwydo mewn llond padell ffrio o wêr wedi toddi.

Pwysigrwydd y gannwyll fel ffynhonnell goleuni, i dywys ein camau yn y tywyllwch, sy'n esbonio'r hen ddihareb hon a gofnodwyd tua 1400 yn Llyfr Coch Hergest: *Teg a gannwyll pwyll i ddyn* 'cannwyll wych yw pwyll i ddyn'. Mewn geiriau eraill, fel y mae cannwyll yn goleuo a hwyluso ffordd dyn yn y tywyllwch, mae *pwyll*, sef doethineb ac amynedd, yn rhoi arweiniad da iddo mewn bywyd (ac wrth gwrs does dim rhaid i mi esbonio, gobeithio, fod *dyn* yma'n golygu merched hefyd!).

Ann Parry Owen



Y beudy tlawd

Mae na lawer iawn o hwyl ar draul gŵr y llety ym Methlehem a'r plentyn bach yn y ddrama Dolig yn dweud "wrth gwrs bod na le, dewch i mewn!". Ond y gwir amdani yw na wyddom ni ddim beth oedd yn meddwl perchenog y stabl. Efallai mai person trugarog oedd o yn cynnig lle yn y beudy rhag fod y ddau o Nasareth heb unman. Efallai mai dyn arianger oedd o yn fodlon rhentu unrhyw gongl o'i eiddo er mwyn ateb y

gofyn enfawr am lety yn y dref yn ystod y cyfrifiad. Efallai ar y llaw arall mai dyma fyddai cynnig arferol iawn i bobl dlawd y cyfnod. Mewn tŷ



cyffredin fe fyddai'r beudy yn rhan o'r tŷ, un rhan i bobl rhan arall i anifeiliaid, a phresenoldeb yr anifeiliaid yn cynhesu'r adeilad ar nosweithiau oer. Felly mae'n bosib mai ein sbectol gyfoes ni sydd yn troi'r beudy yn fan geni dieithr ac anodd. Tybed nad yw'r preseb yn ddim ond arwydd fod y geni ychydig yn annisgwyl ac yn gynnwys a Mair a Joseff heb gael paratoi yn iawn. Mae'r cyfan yn pwysleisio mai ein dychymyg sydd wedi creu cymaint o stori'r geni.

Y mae'r un peth yn wir am yr amseru. Hwylustod drama'r geni sydd yn gwneud i fugeiliaid a doethion gyrraedd yr un pryd. Gallai'r doethion fod wedi cyrraedd ddwy flynedd a hanner yn ddiweddarach yn ôl dealltwriaeth Herod gan ei fod am ladd bob plentyn iau na hynny. Digon posibl mai'r bugeiliaid oedd y cyntaf i glywed y newydd. Ond rhag i

neb feddwl fod bugeiliaid y cyfnod yn ffermwyr cefnog, rhaid meddwl eto. Fe fu bugeiliaid yn hynod barchus ac anrhydeddus yn y traddodiad Iddewig, dyma oedd gwaith Abraham, Moses a Dafydd. Ond roedd na ddwy farn am y gwaith, ers dyddiau Abraham roedd y genedl wedi troi yn fwy o ffermwyr na bugeiliaid, a gwaith digon dianrhydedd



oedd o yn fuan iawn, a mab ieuengaf i Jesse oedd yn bugeilio. Pan ddaeth Samuel i dŷ Jesse nid oedd galw ar Dafydd wedi dod i feddwl ei dad hyd yn oed. Gwaith cyffredin ond angenrheidiol oedd bugeilio. Yn sicr

byddai'n anodd i fugail lynu wrth reolau llym y sefydliad crefyddol oherwydd eu bod yn trin cyrff a'u bod allan yn y meysydd. Felly yn ddi-amau pobl yr ymylon oedd y bugeiliaid hyn, nid pobl y sefydliad ac nid cyfoethogion y gymdeithas. Ond hwy oedd oedd y cyntaf i glywed am eni'r Iesu.

Wedyn y mae'r doethion, pwy a wŷr pwy neu beth oeddynt. Mae'n rhaid eu bod yn ymddangos yn greaduriaid dirgel hyd yn oed yn od, ac eto yn ddigon dylanwadol a chyfoethog i gael croeso gan y brenin yn Jerusalem. Roeddynt yn astudio'r sêr, ond tu hwnt i hynny ychydig wyddom ni amdanynt heblaw eu bod yn teithio a hynny am gyfnod lled faith efallai. Yr hyn sydd yn drawiadol am hanes y geni ydi odrwydd y rhai oedd yno ar un llaw, ond syndod at y rhai sydd yn absennol, dim arweinwyr gwleidyddol yn frenin neu raglaw a dim arweinwyr

crefyddol yn Lefiad, offeiriad nac archoffeiriad. Mae'r sefydliad wedi ei osod ar yr ymylon a thu allan i'r digwyddiad.

Mae Iwan Bryn yn llygaid ei le yn yr englyn sydd ar glawr Perthyn

Un ŵyl lle cawn dafoli

Ein holl flaenoriaeth ni

yd'r ŵyl eleni. Os ydym yn dathlu dyfodiad y Crist tybed na ddylem ei weld yn digwydd yn ein byw bob dydd, digwyddiadau

cyffredin ein

byw. Rhan o

fywyd y cartref

oedd bywyd y

beudy a dylai'r



Crist fod yn amlwg yn ein byw o ddydd i ddydd. Dylai'r geni hefyd agor ein llygaid i le pobl yr ymylon, yn enwedig y gwrthodedig gan gymdeithas. Gwae ni os yw rhagfarn yn peri i ni ddisytyru y bobl hynny nad ydynt cweit yn ffitio ein cymdeithas a'n cymuned oherwydd eu statws cymdeithasol neu eu hodrwydd. Dyna paham y mae gofal am y tlawd a'r anghenus yn ein byd mor gwbl allweddol, yn enwedig yn wyneb Covid. Roedd hi'n braf clywed fod gwledydd y G20 wedi cytuno efo Cymorth Cristnogol a phenderfynu y byddant yn gofalu fod brechiadau Covid ar gyfer gwledydd tlawd y byd.

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn annog pobl i wneud 6 o'r gloch yr hwyr yn amser o weddi yn ystod Adfent. Tra bod eglwysi eraill hefyd yn galw arnom i roi pwyslais newydd ar weddi. Ond dylid cofio un peth, nid cyfle i ofyn am bethau yw gweddi yn sylfaenol ond cyfle i ganiatau i Grist

ac Ysbryd Crist lifo drwom ni a'n troi yn fwy tebyg iddo.
Byddai hynny yn sicr yn gyfle "i dafoli ein holl
flaenoriaethau ni".

Gweddi Adfent dros Gymru

Dad nefol, yr wyt ti'n oleuni ac yn fywyd mewn byd o
drallod.

Dyro dy iachâd i'r rhai sy'n glaf,
dy nerth i'r rhai sy'n dioddef,
dy dosturi i'r rhai sy'n galaru,
a'th ddewrder i'r rhai sy'n gweithio er iacháu a
gwasanaethu eraill.

Bendithia genedl y Cymry ag ysbryd bywiol dy gariad,
a chaniatâ i ni dy drugaredd,
a ddatguddiwyd ym mherson Crist dy Fab. Amen.



Dathlu Beibl 1620

Mae'r Beibl a gyhoeddwyd yn 1620 wedi dylanwadu ar feddwl ac iaith y Cymry yn fwy na dim un llyfr arall. Diolch i Lyfrgell Genedlaethol Cymru am ddarparu cyfres o bedair darlith ar-lein i ddathlu camp 1620 a dylanwad y Beibl ar Gymru.




Agorwyd y gyfres gan E. Gwynn Matthews, oedd yn trafod y ffordd at 1620 trwy waith yr arloeswyr o gyfieithwyr – William Salesbury a'i Destament Newydd a'i Lyfr Gweddï yn 1567, William Morgan a'i Feibl yn 1588. Mae'r cyfieithiadau yn y gweithiau hyn yn sail i Feibl 1620.

Esgob Llanelwy, Richard Parry, a hawliodd y clod am Feibl 1620, ond gwnaethpwyd llawer o'r gwaith gan ei frawd yng nghyfraith, Dr John Davies, rheithor Mallwyd, oedd yn gyfrifol am addasu cyfieithiad William Morgan i'r ffurf a ddaeth yn gyfarwydd i genedlaethau o Gymry. Yn ei ddarlith ef, dangosodd Dr Dylan Foster Evans o Brifysgol

Caerdydd sut y daeth llawer o eiriau a ffurfiau newydd i mewn i'r Gymraeg trwy waith John Davies ar y Beibl.

Yn y drydedd ddarlith aeth un o aelodau'r Morfa, Dr Eryn White o Brifysgol Aberystwyth, ar drywydd dathliad Beiblaidd arall, sef 250 mlynedd ers cyhoeddi



Beibl Peter Williams yng Nghaerfyrddin yn 1770, y Beibl cyntaf i'w argraffu ar dir Cymru. Nid testun y Beibl oedd yn newydd ond nodiadau

esboniadol Peter Williams, nodiadau a ailgyhoeddwyd droeon ar ôl hynny, er iddyn nhw arwain hefyd at ddiarddel Peter Williams o'r gymdeithas Fethodistaidd.

Y ddarlith olaf oedd darlith yr Athro E. Wyn James o Brifysgol Caerdydd, oedd yn trafod cyfraniad amrywiol Thomas Charles fel arloeswr yr ysgolion Sul ac un o sylfaenwyr Cymdeithas y Beibl yn 1804. Nod Charles oedd gweld Cymru yn wlad wedi'i gwreiddio yn y Beibl. Cafwyd hefyd drafodaeth olau ar hanes Mari Jones a'i Beibl, stori sy'n cael ei mawrhau yn y gwledydd hynny lle mae prynu Beibl yn ymdrech o hyd.



Wrth gofio 1620 fel hyn, cawsom weld beth oedd mesur dylanwad y Beibl nid yn unig ar ffurfiad ein cenedl ond hefyd ar 'bobl y byd'.

Rhidian Griffiths

**Gweddill Iluniau
Llew Salisbury
o'r
Ffotomarathon**

